**WHC/2022/007**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi: 15 Chwefror 2022**

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: PERFFORMIAD**

**Teitl:** Cofnodi codau Read dementia

**Dyddiad Dod i ben / Dyddiad yr Adolygiad** Mawrth 2023

**I'w weithredu gan:**

**Angen gweithredu erbyn:** 1 Ebrill 2021

**Anfonwr:** Dr Liz Davies, Uwch-swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru

**Enw(au) Cyswllt GIGC Llywodraeth Cymru :**
Hannah Morgan, Iechyd Meddwl a grwpiau Agored i Newid,
Hannah.morgan2@llyw.cymru

**Dogfennau amgaeedig:** 1

**At: Practisau Meddygon Teulu, Pwyllgor Meddygon Teulu Cymru, Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, Coleg**

**Nyrsio Brenhinol Cymru, Cyfarwyddwyr Cymunedol a Iechyd Meddwl, Cynorthwyydd Cyfarwyddwyr Meddygol, Rheolwyr Cyffredinol Iechyd Meddwl, Gwelliant Cymru, Clinigau Cof, Cymdeithas Prydeinig I'r Henoed, Grŵp Cynghori Uwch-nyrsys Cymru Gyfan, Arweinwyr Gofal Iechyd yn y Carchar, Gofal ar gyfer Meddyginiaeth Henoed.**

Annwyl Gydweithiwr

Ym mis Chwefror 2015, fe wnaethom gyhoeddi Cylchlythyr WHC/2015/004 - Cynorthwyo gofal sylfaenol i osod unigolion â dementia ar gofrestri dementia eu meddygfa (gweler Atodiad 2). Yn ogystal â'r Cylchlythyr Iechyd hwn, gwnaed argymhelliad, yn sgil cynnal Archwiliad 2018 o Wasanaethau Asesu'r Cof, i adolygu ac ail-lansio'r codau Read a darparu canllawiau i'r holl wasanaethau.

Canfu Archwiliad 2018 o Wasanaethau Asesu'r Cof fod y rhan fwyaf o wasanaethau yn cofnodi codau Read, ac yn eu rhannu â Phractisau Cyffredinol gofal sylfaenol. Fodd bynnag, mae nifer o anghysondebau mewn arferion:

- nid yw pob gwasanaeth yn nodi'r cod Read ar gyfer dementia ar bob gohebiaeth
- nid yw pob gwasanaeth yn darparu cod Read ar gyfer dementia i wasanaethau gofal sylfaenol
- nid yw pob gwasanaeth yn cofnodi codau Read mewn cronfa ddata
- nid oedd Gwasanaethau Anabledd Dysgu wedi eu cynnwys yng ngofynion cod Read 2015

Mae Atodiad 1 yn nodi'r codau Read y dylai gwasanaethau asesu'r cof a meddygfeydd/gwasanaethau gofal sylfaenol eu cofnodi, a'u cynnwys ar bob gohebiaeth a rennir rhwng gwasanaethau. Dylid hefyd eu rhannu â'r unigolion sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr (os ydynt yn dymuno cael yr wybodaeth), ac o fewn Gwasanaeth Asesu'r Cof, Gwasanaeth Asesu Cof y Gwasanaethau Anabledd Dysgu, a rhwng cronfeydd data gofal sylfaenol. Mae'r Atodiad hefyd yn cynnwys canllawiau ar gyfer y Byrddau Iechyd er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o ail-godio'r diagnosis o ddementia gan ddefnyddio'r codau Read.

Yr eiddoch yn gywir

Dr Liz Davies

Dr Liz Davies
Uwch Swyddog Meddygol – Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Newid

**Atodiad 1**

## COFNODI CODAU READ DEMENTIA

Rhaglen dementia/iechyd gwybyddol iechyd meddwl ac anableddau dysgu. Gwasanaethau asesu'r cof a gofal sylfaenol.

Yn 2015 anfonodd Llywodraeth Cymru gylchlythyr i Fyrddau Iechyd yng Nghymru i roi cyfarwyddyd ar gynnal asesiadau cof, ac i wasanaethau sylfaenol mewn perthynas â defnyddio codau Read i gofnodi diagnosis dementia unigolion, er mwyn darparu'r wybodaeth gywir i'r unigolion hynny sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr (os ydynt yn dymuno cael yr wybodaeth), a gwasanaethau eraill, ac adrodd ar gyfraddau diagnostig cenedlaethol mewn perthynas â dementia.

Canfu Archwiliad 2018 o Wasanaethau Asesu'r Cof fod y rhan fwyaf o wasanaethau yn cofnodi codau Read ac yn eu rhannu â gwasanaethau gofal sylfaenol, ond bod nifer o anghysondebau mewn arferion:

- nid yw pob gwasanaeth yn nodi'r cod Read ar gyfer dementia ar bob gohebiaeth
- nid yw pob gwasanaeth yn darparu cod Read ar gyfer dementia i wasanaethau gofal sylfaenol
- nid yw pob gwasanaeth yn cofnodi codau Read ar gyfer dementia mewn cronfa ddata
- nid oedd Gwasanaethau Anabledd Dysgu wedi eu cynnwys yng ngofynion cod Read 2015

Gwnaed argymhelliad yn sgil cynnal Archwiliad 2018 o'r Gwasanaethau Asesu Cof, sef y dylid adolygu'r codau Read a'u hail-lansio, gan ddarparu canllawiau i'r holl wasanaethau. Bydd gwybodaeth gyfredol yn cael ei darparu'n chwarterol i'r Grŵp Llywio Cenedlaethol ar gyfer Dementia, a fydd yn ei dro yn rhoi adroddiad i'r Grŵp Goruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia, sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfedd â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia. Bydd Gwasanaethau Anableddau Dysgu yn cofnodi diagnosis o ddementia a chodau Read, gan fodloni'r un gofynion o ran y broses a ddefnyddir.

Dylid nodi'r codau Read canlynol drwy gynnal asesiad cof, a'u cofnodi gan wasanaethau meddyg teulu/gofal sylfaenol, a'u cynnwys ar bob gwybodaeth y mae gwasanaethau yn ei rhannu. Dylid hefyd eu rhannu â'r unigolion sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr (os ydynt yn dymuno cael yr wybodaeth hon), ac o fewn Gwasanaeth Asesu'r Cof, Gwasanaeth Asesu'r Cof y Gwasanaethau Anabledd Dysgu, a rhwng cronfeydd data gofal sylfaenol:

**Eu00. Dementia Alzheimer ***

**Eu01. Dementia fasgwlaidd ***

**Eu025 Dementia Lewy Body**

**Eu002 Dementia cymysg**

**Eu057 Nam gwybyddol ysgafn (MCI)**

**Eu02z Dementia arall** (hy Dementia Fronto-temporal, Dementia clefyd Parkinson, Dementia sy'n gysylltiedig ag alcohol etc.)

- Cofiwch fod 5 digid yn y codau Read, ac felly mewn dau o'r codau arfaethedig* mae atalnod llawn yn rhan annatod o'r cod.
- Cydnabyddir bod codau Read dementia eraill yn cael eu defnyddio, e.e. ar gyfer mathau prinnach o ddementia, parhewch i gofnodi'r rhain ar yr holl wybodaeth a rennir rhwng gwasanaethau fel y disgrifir uchod.

Rhaid i bob gohebiaeth a anfonir i wasanaethau statudol gynnwys y diagnosis o ddementia a chod Read.

## COD READ Y DIAGNOSIS O DDEMENTIA

**Canllawiau ar gyfer Byrddau Iechyd i gefnogi Cylchlythyr Iechyd Llywodraeth Cymru**

Canllawiau ar gyfer Byrddau Iechyd Cymru yw'r rhain er mwyn helpu gyda'r gwaith o ail-godio diagnosis o ddementia gan ddefnyddio'r codau Read. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd anfon y canllawiau hyn i'r holl wasanaethau lle y cynhelir asesiadau ac y gwneir diagnosis o ddementia ee gwasanaethau Niwroleg, Gerontologeg, ac Iechyd Meddwl, a gwasanaethau Anabledd Dysgu a Gofal Sylfaenol.

**GWASANAETHAU ASESU'R COF / GWASANAETH ASESU'R COF Y GWASANAETHAU ANABLEDD DYSGU**

Pan wneir diagnosis o ddementia, rhaid defnyddio'r cod Read priodol o'r rhestr ganlynol:
**Eu00. Dementia Alzheimer*, Eu01. Dementia fasgwlaidd*, Eu025 Dementia Lewy Body, Eu002 Dementia cymysg, Eu057 Nam gwybyddol ysgafn (MCI), Eu02z Dementia arall** (hy Dementia Fronto-Temporal, Dementia clefyd Parkinson, Dementia sy'n gysylltiedig ag alcohol etc.)

Bydd y diagnosis a'r cod wedi eu nodi ar **bob gohebiaeth** at feddyg teulu'r unigolyn fel a ganlyn:

**DIAGNOSIS:** Dementia Lewy Body **COD READ: Eu025**

**Bydd hyn yn sicrhau bod y cod Read a nodwyd yn gallu cael ei ychwanegu at y gofrestr sy'n coladu Cyfraddau Diagnosis Dementia a gedwir gan feddygfeydd. Bydd gwasanaethau asesu'r cof hefyd yn cynnal cronfa ddata sydd â gwybodaeth diagnosis**

**gan ei bod yn bwysig cadw cofnod o'r holl bobl sydd wedi cael diagnosis o ddementia yn yr ardal. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau asesu'r cof weithio mewn partneriaeth â Phractisau Cyffredinol ac efallai y bydd angen cyfarfodydd rheolaidd rhwng y ddwy ochr i adolygu'r data a golygu'r data. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i nodi enw cysylltwr dementia'r unigolyn yn y gronfa ddata.**

**GOFAL SYLFAENOL**

Mae gan feddygfeydd y cyfrifoldeb dros gynnal y Gofrestr Ddementia sy'n cefnogi'r gwaith o gasglu a dadansoddi cyfraddau Diagnosis Dementia Cenedlaethol.

Bydd pob meddygfa'n cael gohebiaeth ynglŷn â diagnosis unigolyn o ddementia gan bob gwasanaeth lle y gwneir gweithgarwch yn ymwneud ag asesu a diagnosis. Rhaid i bob gohebiaeth gynnwys y diagnosis o ddementia a chod Read, a fydd wedyn yn cael ei ychwanegu at y Gofrestr Ddementia gan y feddygfa. Bydd gan Reolwyr practisau meddygon teulu rôl hanfodol o ran sicrhau bod gwybodaeth y cod Read yn cael ei nodi a'i rannu â'r asiantaethau partneriaeth.

** Os daw gohebiaeth ynglŷn ag unigolyn sydd wedi cael diagnosis newydd o ddementia heb fod cod Read wedi ei nodi, bydd y feddygfa'n cysylltu â'r ffynhonnell i gael gwybod y cod Read cywir.

**GWASANAETHAU ERAILL SY'N CYNNAL ASESIADAU AC YN GWNEUD DIAGNOSIS O DDEMENTIA** ee Niwroleg, Gerontoleg, Iechyd Meddwl a Anabledd Dysgu, Gofal Sylfaenol

Bydd y gwasanaethau sy'n cynnal asesiadau ac yn gwneud diagnosis o ddementia yn anfon yr wybodaeth am yr asesiad a'r diagnosis, ynghyd â'r cod Read, at **feddyg teulu'r unigolyn ac i'r Gwasanaeth Asesu'r Cof lleol.** Bydd hyn yn sicrhau bod y diagnosis a'r cod Read yn cael eu cofnodi gan y Gwasanaethau Asesu'r Cof a'r Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, a bod y cymorth ôl-ddiagnosis priodol yn cael ei gynnig i'r unigolyn.

Bydd yr wybodaeth hon yn cynnwys y cod Read perthnasol o'r rhestr ganlynol: **Eu00. Dementia Alzheimer*, Eu01. Dementia fasgwlaidd*, Eu025 Dementia Lewy Body, Eu002 Dementia cymysg, Eu057 Nam gwybyddol ysgafn (MCI), Eu02z Dementia arall** (hy Dementia Fronto-Temporal, Dementia clefyd Parkinson, Dementia sy'n gysylltiedig ag Alcohol etc.)

**AR GYFER POB GWASANAETH:**

**Rhaid i'r diagnosis a'r cod Read** gael eu nodi ar **bob gohebiaeth** a anfonir at feddyg teulu'r unigolyn a'r Gwasanaethau Asesu'r Cof lleol, ac oddi wrthynt, fel a ganlyn:

**DIAGNOSIS:** Dementia Lewy Body **Cod READ: Eu025**

*** **Dylid dilyn y canllawiau hyn ar gyfer cofnodi gwybodaeth am ddiagnosis a chodau Read pan fo diagnosis wedi ei gadarnhau.** Os nad yw'n glir bod diagnosis o ddementia wedi cael ei gadarnhau, dylid cysylltu â Gwasanaeth Asesu'r Cof lleol yr unigolyn i drafod ymhellach, a lle y bo'n briodol gwneud trefniadau ar gyfer cynnal yr asesiad angenrheidiol.

Cydnabyddir na fydd codau Read yn cael eu defnyddio mwyach pan fydd gwasanaethau yn mabwysiadu SNOMED CT (terminoleg glinigol) fel modd o gasglu data. Mae data ymgyngoriadau cleifion â meddygon teulu yn cael eu cofnodi ar hyn o bryd mewn systemau sy'n defnyddio codau Read y derminoleg glinigol. Data cleifion ar lefel glinigol yw'r rhain. Cynlluniwyd SNOMED CT fel iaith fyd-eang ar gyfer termau iechyd a gofal ac mae wedi'i strwythuro fel geirfa glinigol i'w defnyddio mewn cofnodion iechyd electronig. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu diweddaru yn unol â'r amserlen ar gyfer cofnodi diagnosis o Dementia gan ddefnyddio SNOMED CT.